YR ATODLEN

Gweithgareddau y caiff Gweinidogion Cymru dalu grantiau a gwneud benthyciadau ar eu cyfer o dan y Cynllun hwn

RHAN 9

At ddiben hyrwyddo neu ddatblygu pysgota hamdden

1. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo arloesedd.

2. Gweithgareddau sy'n ymwneud â gwasanaethau cynghori proffesiynol.

3. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio.

4. Gweithgareddau sy'n gwella hylendid, iechyd, diogelwch, a llesiant.

5. Gweithgareddau sy'n cefnogi arallgyfeirio busnesau.

6. Gweithgareddau sy'n lliniaru effeithiau amgylchiadau esgusodol niweidiol.

7. Gweithgareddau sy'n sefydlu neu'n gwella seilwaith ar gyfer defnyddwyr y môr a defnyddwyr dŵr croyw.

8. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo creu swyddi ac yn annog newydd-ddyfodiaid i'r diwydiannau morol, pysgota a dyframaethu.

9. Gweithgareddau sy'n cefnogi'r gwaith o farchnata cynhyrchion morol, pysgodfeydd a dyframaethu neu bysgota hamdden.

10. Gweithgareddau sy'n arwain at gynhyrchion, prosesau, neu systemau rheoli a threfnu, newydd neu well.

11. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at warchod, adfer neu wella bioamrywiaeth ac ecosystemau dyfrol.

12. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at liniaru newid hinsawdd neu ei effeithiau.

13. Gweithgareddau sy'n cynnal neu'n gwella iechyd a lles anifeiliaid.

14. Gweithgareddau sy'n cefnogi gwaith cynllunio gofodol morol mewn perthynas â'r defnydd cynaliadwy o adnoddau morol ac arfordirol.